**PRIFYSGOL DE CYMRU**
**UNIVERSITY OF SOUTH WALES**

**COD YMDDYGIAD MYFYRWYR**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dylid darllen y Cod Ymddygiad Myfyrwyr (y Cod) ar y cyd â'r Rheoliadau Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr a'r Gweithdrefnau cysylltiedig, sy'n amlinellu'r broses ar gyfer rheoli honiadau o dorri'r Cod.

1.2 Mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i ddarparu profiad o ansawdd da i fyfyrwyr, i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a meithrin ymdeimlad cryf o gymuned ar gyfer ein myfyrwyr.

1.3 Mae'r Cod wedi'i seilio ar barch at gymuned y Brifysgol, y gymuned leol ehangach, at unigolion, eiddo a'r amgylchedd.

1.4 Bydd methiant i gydymffurfio â'r Cod hwn yn cael ei drin fel achos o gamymddwyn, ac ymdrinnir ag unrhyw honiadau o dan y Weithdrefn briodol.

1.5 Mae'r Cod hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig yn berthnasol i'r canlynol:

- Myfyrwyr sy'n astudio gyda Phrifysgol De Cymru.
- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith neu sy'n ymgymryd â dysgu yn y gwaith.
- Myfyrwyr y cymeradwywyd iddynt gael caniatâd i fod yn absennol.
- Myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru gyda phartneriaid cydweithredol, mewn perthynas â chyrsiau wedi'u cofrestru'n broffesiynol yn unig.
- Prentisiaid.
  *(D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'myfyriwr/myfyrwyr' yn golygu 'prentis(iaid)'.)*

1.6 Nid yw'r Cod hwn a'r Gweithdrefnau cysylltiedig yn berthnasol i'r canlynol:

- myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda phartneriaid cydweithredol (lle bydd gweithdrefnau disgyblu'r partneriaid eu hunain yn berthnasol) heblaw myfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at gofrestru proffesiynol.
- myfyrwyr sydd hefyd yn aelodau o staff y Brifysgol, lle bydd yn fwy addas i'r gweithdrefnau disgyblu staff fod ar waith.

1.7 Mae Adran 4 y ddogfen hon yn darparu rhestr anghyflawn o ymddygiadau a fyddai'n gyfystyr â thorri'r Cod. Mae Adran 5 yn darparu enghreifftiau ychwanegol, anghyflawn, o gamymddwyn sy'n benodol i gyrsiau sy'n arwain at gofrestru proffesiynol (addasrwydd i ymarfer).

1.8 Ar gyfer y rheiny sydd wedi'u cofrestru ar raglenni astudio proffesiynol fel nyrsio a bydwreigiaeth, addysg, gwaith cymdeithasol, ac ati, sy'n gosod eu safonau proffesiynol neu eu rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer eu hunain, mae'r Cod hwn yn ychwanegu at, ac nid yn disodli, y safonau, y rheoliadau neu'r gofynion ymddygiad proffesiynol hynny.

1.9 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i atal myfyrwyr rhag cael eu radicaleiddio neu eu denu tuag at eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu derfysgaeth, gan gynnwys radicaleiddio neu ddenu pobl eraill at weithgareddau/ymddygiadau o'r fath, a cheisio sicrhau eu bod yn cael cyngor a chymorth priodol. Os oes gan aelod o staff neu fyfyriwr seiliau rhesymol dros bryderu bod myfyriwr yn cael ei radicaleiddio neu'i ddenu at weithgareddau a all arwain at weithredoedd o eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu derfysgaeth, neu'n denu eraill at y rhain, dylai godi'r mater gyda'r Rheolwr Academaidd dynodedig (neu gyfwerth) yn y lle cyntaf (gweler Protocol Prevent y Brifysgol).

1.10 Wrth gymhwyso'r Cod hwn, mae'r Brifysgol yn ceisio cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n hyrwyddo preifatrwydd, cyfle cyfartal a dim gwahaniaethu.

## 2. SAFONAU YMDDYGIAD MYFYRWYR

2.1 Rhaid i fyfyrwyr gadw at holl godau, rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau'r Brifysgol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n benodol i raglen astudio. Ceir rheoliadau ar wahân hefyd: y Siarter Myfyrwyr (sy'n nodi'r hyn y gall ein myfyrwyr ei ddisgwyl gan y Brifysgol a'r hyn mae'r Brifysgol yn ei ddisgwyl yn gyfnewid am hynny); a Rheolau Sefydlog Undeb y Myfyrwyr, sy'n cwmpasu defnydd myfyrwyr o gyfleusterau Undeb y Myfyrwyr ac ymddygiadau disgwyliedig wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau Undeb y Myfyrwyr.

2.2 Disgwylir i bob myfyriwr fod yn ystyriol o anghenion cyd-fyfyrwyr, ymwelwyr a staff, ac integreiddio'n gadarnhaol â'r gymuned leol.

2.3 Disgwylir i fyfyrwyr fod yn ystyriol o bobl eraill, a chydnabod sut gall eu hymddygiadau effeithio ar fyfyrwyr eraill, staff a'r gymuned ehangach.

2.4 Disgwylir i fyfyrwyr ddefnyddio pob math o gyfathrebu ysgrifenedig, digidol ac ar lafar (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio) yn gyfrifol, gan barchu hawl pobl eraill i breifatrwydd bob amser.

2.5 Mae disgwyliadau o ymddygiad myfyrwyr yn ychwanegol at ddisgwyliadau Undeb y Myfyrwyr mewn perthynas â chymdeithasau, clybiau a digwyddiadau ac adeiladau Undeb y Myfyrwyr.

## 3. EGWYDDORION CYFFREDINOL

3.1 Mae'r Cod yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr yn eu perthynas â'r canlynol:

- y Brifysgol;
- cyd-fyfyrwyr;
- staff y Brifysgol;
- pobl sy'n ymweld â'r Brifysgol;
- y cyhoedd pan na fyddant yn y Brifysgol.

Mae'r Cod yn berthnasol yn ystod holl weithgareddau'r Brifysgol pan fyddant yn digwydd:

- ar safleoedd y Brifysgol;

- trwy ddulliau electronig, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol;
- yn ystod dysgu seiliedig ar waith, teithiau maes, gwirfoddoli neu weithgareddau clwb Undeb y Myfyrwyr;
- oddi ar y safle rhwng aelodau'r Brifysgol.

3.2 Gall aelodau o'r Brifysgol, staff lleoliadau, cyflogwyr prentisiaeth neu'r cyhoedd godi pryderon.

3.3 Mae'r Cod a'r Gweithdrefnau wedi eu cynllunio i sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu'n deg ac yn gyson o ran yr holl fyfyrwyr.

3.4 Bydd y Brifysgol yn cynnal achosion disgyblu mewn modd cyfrinachol a sensitif a disgwylir y bydd myfyrwyr yn gweithredu yn yr un modd.

3.5 Ni fydd y Brifysgol yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partïon ynghylch ymchwiliadau a chanlyniadau o achosion ymddygiad myfyrwyr, oni bai fod disgwyliadau cyfreithiol o dan reoliadau diogelu data'r DU yn berthnasol.

3.6 Ystyrir bod recordio, copïo neu ddosbarthu recordiadau neu ddeunydd ysgrifenedig heb awdurdod mewn perthynas â gweithgareddau'r Brifysgol a ystyrir yn gyfrinachol yn drosedd ddisgyblu.

## 4. ENGHREIFFTIAU O GAMYMDDYGIAD

4.1 Bydd gweithred yn cael ei hystyried yn achos o gamymddygiad, ac felly'n destun camau disgyblu:

- os yw gyfwerth ag, neu'n debygol o fod cyfwerth ag, ymyrryd yn amhriodol â gweithrediaeth a gweithgareddau priodol y Brifysgol, neu'r rheiny sy'n gweithio neu'n astudio yn y Brifysgol,
- os yw'n niweidio, neu'n debygol o niweidio, enw da'r Brifysgol; neu
- unrhyw ymddygiad a allai gyfrif fel neu sydd wedi cael ei brofi fel trosedd

4.2 Mae'r canlynol yn rhoi rhestr ***anghyflawn*** o enghreifftiau o gamymddygiad posibl, y gall rhai ohonynt fod cyfwerth â throsedd.

Mae'r Canllawiau ar Gymhwyso Cosbau ar gael yn: https://www.southwales.ac.uk/cy/y-cofrestrfa-academaidd/rheoliadau-myfyrwyr/ymddygiad-myfyrwyr/

### *4.2.1 Aflonyddu a bwlio*

- Cyswllt neu anaf corfforol digroeso gan gynnwys: dyrnu, gwthio, cydio, cicio, slapio, brathu, tynnu gwallt;
- Sylwadau neu ystumiau sarhaus neu fygythiol;
- Dilyn unigolyn arall dro ar ôl tro heb reswm da;
- Anafu un unigolyn neu grŵp yn fwriadol gan unigolyn neu grŵp arall trwy ddulliau corfforol, geiriol, di-eiriau neu seicolegol.

### *4.2.2 Camymddwyn rhywiol*

- Ymgymryd â, neu geisio ymgymryd â chyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd;
- Rhoi sylwedd er mwyn cael cyfathrach rywiol neu weithred rywiol heb ganiatâd;
- Tagu anangheuol er mwyn boddhad rhywiol;
- Tynnu ffotograffau rhywiol o rywun arall heb ganiatâd, er enghraifft tynnu llun i fyny sgert;
- Rhannu, neu fygwth rhannu, deunyddiau rhywiol preifat unigolyn arall heb ganiatâd a/neu olygu delweddau i'w gwneud yn benodol rhywiol;
- Voyeuriaeth;
- Datgelu eich hun yn amhriodol neu anfon, rhannu, dangos neu arddangos organau rhywiol, delweddau personol neu gynnwys rhywiol i berson arall, gan gynnwys ymddygiad a gydnabyddir fel "seiberfflachio";
- Dilyn rhywun arall dro ar ôl tro, mewn modd a all wneud iddynt deimlo'n anghyfforddus;
- Gwneud sylwadau digroeso o natur rywiol;
- Gorfodaeth neu fwlio ag elfennau rhywiol;
- Troseddau rhyw â phlant, gan gynnwys paratoi i bwrpas rhyw;
- Masnachu pobl at ddibenion camfanteisio rhywiol;
- Gwahoddiadau a/neu ofynion rhywiol.

### *4.2.3 Ymddygiad camdriniol*

- Bygythiadau i frifo unigolyn arall;
- Ymgymryd ag unrhyw weithgarwch neu ymddygiad sy'n mynd yn groes i Gynllun Cydraddoldeb Strategol neu bolisïau Urddas wrth Astudio/Urddas yn y Gwaith y Brifysgol, gan gynnwys gweithredoedd o gasineb hiliol, eithafiaeth ddi-drais, eithafiaeth dreisgar a/neu derfysgaeth, gan gynnwys radicaleiddio neu ddenu pobl eraill i ymgymryd â gweithgareddau/ymddygiad o'r fath a sylwadau ymosodol yn ymwneud â rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, hil, beichiogrwydd, priodas/partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran[1] unigolyn;
- Methu â sylweddoli egwyddorion rhyddid mynegiant, fel y nodir yn God Ymddygiad Rhyddid i Lefaru'r Brifysgol ac/neu'r Polisi Siaradwyr;

[1] Dylid nodi bod digwyddiadau sy'n ymddangos i'r dioddefwr neu unrhyw un arall eu bod yn seiliedig ar ragfarn tuag ato oherwydd ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol, yn cael eu hadnabod fel digwyddiadau casineb. Pan fydd digwyddiad casineb hefyd yn drosedd, caiff ei hadnabod fel trosedd gasineb. Nid yw trosedd gasineb yn drosedd benodol ynddi'i hun; yn hytrach, mae'n dynodi trosedd fel ymosod, aflonyddu, troseddau rhywiol, difrod troseddol a llythyrau cas, y canfyddir ei fod wedi cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol.

- Gweithredu mewn modd bychanol a gelyniaethus (gan gynnwys bygwth unrhyw barti sy'n rhan o waith achos parhaus);
- Honiadau maleisus neu drallodus yn erbyn aelodau eraill o gymuned y Brifysgol;
- Defnyddio iaith amhriodol;
- Cysylltu â rhywun arall dro ar ôl tro (dros y ffôn, trwy'r e-bost, trwy negeseuon testun neu ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol) yn erbyn dymuniadau'r unigolyn arall (gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Brifysgol hefyd: https://www.southwales.ac.uk/cy/gwasanaethau/gwasanaethau-tg/).

***4.2.4 Difrod i eiddo***

- Achosi difrod i eiddo'r Brifysgol, neu eiddo myfyrwyr, staff neu ymwelwyr eraill.

***4.2.5 Cymryd neu ddefnyddio eiddo heb awdurdod***

- Methu â chydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifiadura TG;
- Camddefnyddio eiddo'r Brifysgol (er enghraifft cyfrifiaduron a chyfarpar labordy);
- Mynediad heb awdurdod i safleoedd y Brifysgol, neu ddefnydd heb awdurdod ohonynt;
- Prynu neu archebu nwyddau ar ran y Brifysgol heb awdurdod priodol.

***4.2.6 Achosi pryder ynghylch iechyd neu ddiogelwch***

- Gweithred/anweithred a achosodd, neu a allai fod wedi achosi, difrod difrifol ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft analluogi offer diffodd tân neu gyflenwi cyffuriau a reolir/cael cyffuriau a reolir yn eich meddiant) ac yn cynnwys ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir er budd Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith;
- Gweithred/anweithred a achosodd, neu a allai fod wedi achosi, pryder iechyd a diogelwch ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, ysmygu sigaréts mewn ardaloedd heb eu dynodi);
- Meddu ar arfau tra ar gampws y Brifysgol neu eiddo sydd gan y Brifysgol.

***4.2.7 Rhwystr gweithredol***

- Gweithredoedd/anweithredoedd/datganiadau wedi eu bwriadu i dwyllo'r Brifysgol[2];
- Methu â hysbysu'r Brifysgol am gyfweliad heddlu neu arestio am unrhyw drosedd, gan gynnwys rhybuddiad neu gerydd, cyn gynted â phosibl ar ôl iddo ddigwydd ac o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith i fyfyrwyr ar gyrsiau cofrestredig nad ydynt yn broffesiynol/y diwrnod gwaith nesaf i fyfyrwyr ar gyrsiau cofrestredig proffesiynol[3];

[2] Pan gaiff gweithred ei chyflawni gan rywun er mwyn iddo gael ei dderbyn i'r Brifysgol, e.e. ffugio cymwysterau, lle na ddyfarnwyd unrhyw gredyd, bydd hyn yn cael ei ystyried trwy'r gweithdrefnau derbyn. Pan enillwyd credyd, ymdrinnir â'r mater trwy'r Rheoliadau Camymddygiad Myfyrwyr.

[3] Mae'r rhestr o gyrsiau sydd wedi'u cofrestru'n broffesiynol i'w gweld yn Atodiad 1 o'r Rheoliadau Camymddwyn ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr

- Methu â hysbysu'r Brifysgol am ddatblygiad/canlyniad ymchwiliad yr heddlu am drosedd, o fewn pump diwrnod gwaith o newid sylweddol o fewn cyfnod o bum diwrnod gwaith i fyfyrwyr ar gyrsiau cofrestredig nad ydynt yn broffesiynol/y diwrnod gwaith nesaf i fyfyrwyr ar gyrsiau cofrestredig proffesiynol;

- Tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol (yn cynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu yn rhywle arall;

- Tarfu ar weithrediadau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw un o fyfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol, neu unrhyw un sydd ag awdurdod i ymweld â'r Brifysgol;

- Llwgrwobrwyo, neu geisio llwgrwobrwyo, aelod o staff y Brifysgol;

- Ymyrryd yn amhriodol â gweithgareddau'r Brifysgol (yn cynnwys gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safle'r Brifysgol neu yn rhywle arall;

- Ymyrryd yn amhriodol â gweithrediadau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw un o fyfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu unrhyw un sydd ag awdurdod i ymweld â'r Brifysgol;

- Methu â chydymffurfio â chais rhesymol unigolyn ag awdurdod;

- Methu â rhoi eu henw a'u cyfeiriad i swyddog neu weithiwr yn y Brifysgol pan fydd swyddog neu weithiwr o'r fath yn gofyn yn rhesymol iddynt wneud hynny wrth gyflawni eu dyletswyddau.

***4.2.8 Niwed i enw da***

- Ymddygiad sydd wedi achosi, neu a allai fod wedi achosi, niwed i enw da'r Brifysgol.

**Rhwymedigaethau myfyrwyr lle mae camymddwyn hefyd yn drosedd**

4.3 Yn unol â 4.2.7 o'r Cod hwn, bydd methu â hysbysu'r Brifysgol am gyfweliad heddlu neu arestio am unrhyw drosedd, gan gynnwys rhybuddiad neu gerydd, o fewn pum dirwnod gwaith (i fyfyrwyr ar gyrsiau cofestredig nad ydynt wedi'u cofrestru'n broffesiynol) neu'r diwrnod gwaith nesaf (ar gyfer myfyrwyr ar gyrsiau cofrestredig professiynol) yn cael ei ystyried fel camymddyn.

Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i'w staff a'i myfyrwyr ac felly rhaid iddi gael gwybod am unrhyw weithgarwch troseddol honedig gan ei myfyrwyr.

Os ar unrhyw adeg yn ystod eu cofrestriad fel myfyriwr yn y Brifysgol, bydd myfyriwr yn cael ei rhybuddio, eu harestio am, neu eu cyhuddo o drosedd, mae'n ofynnol iddynt adrodd hyn o fewn deg diwrnod gwaith ac adrodd ar gynnydd unrhyw achos troseddol i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

4.4 Os anfonir myfyriwr i dreial, rhaid i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr gael gwybod ar bob lefel, naill ai gan y myfyriwr neu gan ei gyfreithiwr/cynrychiolydd. Os caiff myfyriwr ei gollfarnu wedi hynny, yna rhaid rhoi gwybod am hyn hefyd ynghyd â manylion unrhyw gosb neu ddedfryd a osodwyd.

4.5 Am ragor o wybodaeth am gamymddwyn sydd hefyd yn drosedd, cyfeiriwch at y Rheoliadau Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr.

## 5. ENGHREIFFTIAU O GAMYMDDYGIAD SY'N BENODOL I GYRSIAU WEDI'U COFRESTRU'N BROFFESIYNOL (ADDASRWYDD I YMARFER)

5.1 Dyma restr o enghreifftiau ***anghyflawn*** o ymddygiad ac ymarweddiad, a fyddai'n gyfystyr â chamymddygiad proffesiynol ac felly'n sbarduno ymchwiliad i addasrwydd myfyriwr i ymarfer; yn ogystal â'r enghreifftiau a nodir o dan Adran 4:

***Anaddasrwydd proffesiynol***

5.2 Gellir dangos anaddasrwydd proffesiynol mewn nifer o ffyrdd. Dyma enghreifftiau cyffredin dangosol:

a) Methu â glynu wrth brosesau a gweithdrefnau ac agwedd neu ymddygiad amhriodol a all amlygu ei hun drwy:

- fethu â derbyn a dilyn cyngor gan y Brifysgol neu ddarparwr lleoliad/dysgu ymarfer;
- methu â dilyn gweithdrefnau/arferion a argymhellir a allai roi pobl eraill, cleientiaid, myfyrwyr, staff mewn perygl o niwed;
- diffyg cymhelliant neu ddiddordeb parhaus a/neu ddiffyg cyfranogiad mewn gweithgareddau dysgu (e.e. dysgu ymarfer/lleoliadau, cyflwyniadau, sesiynau academaidd wedi'u hamserlennu, tiwtorialau academaidd neu fugeiliol, sesiynau sgiliau clinigol, gofal uniongyrchol i gleientiaid);
- diffyg presenoldeb yn y dosbarth, dysgu ymarfer/lleoliad neu apwyntiad perthnasol arall;
- ymdrech wael i gyflawni'r gwaith a methu â chyflwyno gwaith;
- methu'n barhaus â'r cymwyseddau/hyfedreddau proffesiynol gofynnol;.

b) Ymddygiad amhroffesiynol a all amlygu ei hun drwy:

- gamddefnyddio'r rhyngrwyd a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol;
- methu â chadw ffiniau proffesiynol neu rywiol priodol;
- torri cyfrinachedd;
- gwahaniaethu anghyfreithlon;
- anghwrteisi parhaus tuag at bobl, cydweithwyr neu eraill;
- ymddygiad anghymdeithasol sy'n effeithio'n andwyol ar weithrediad priodol cyd-destun ymarfer proffesiynol;
- anonestrwydd.

***Pryderon iechyd***

5.3 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai fod gan fyfyrwyr, neu y gallai myfyrwyr ddatblygu, cyflyrau iechyd a allai effeithio ar eu haddasrwydd i ymarfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd cyflyrau iechyd (gan gynnwys anableddau) yn codi pryderon mewn perthynas ag addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Mae arferion a gweithdrefnau cynhwysol y Brifysgol wedi'u cynllunio'n bennaf i ddiwallu anghenion myfyrwyr ag anableddau; gellir gwneud addasiadau pellach hefyd i sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais oherwydd cyflwr iechyd/anabledd, gan ystyried unrhyw faterion iechyd a diogelwch. Gellir gofyn i fyfyrwyr hefyd addasu eu harferion i sicrhau eu bod yn gallu astudio a gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

5.4 Yn anffodus, gall fod amgylchiadau pan amharir ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer, ac nad yw'n bosibl darparu addasiadau rhesymol oherwydd cyfyngiadau iechyd a diogelwch/eraill. Gall hyn ei gwneud hi'n amhosibl i fyfyriwr raddio gyda dyfarniad a gymeradwywyd/achredwyd yn broffesiynol, gan eu hatal rhag dechrau hyfforddiant pellach, cofrestru neu gael anodiadau/cofrestru pellach gyda'r corff proffesiynol perthnasol.

5.5 Bydd y Brifysgol yn ystyried pa dystiolaeth, os o gwbl, y mae ei hangen gan y myfyriwr er mwyn iddi allu asesu ei addasrwydd i ymarfer yn briodol a'i gefnogi yn ei astudiaethau. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth feddygol a/neu atgyfeiriad iechyd galwedigaethol. Bydd y Brifysgol yn cefnogi myfyrwyr i gael y dystiolaeth hon, er enghraifft, trwy eu cyfeirio at yr arbenigwr priodol a thalu am yr adroddiad lle mae hyn yn gymesur. Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir gan yr arbenigwr priodol adlewyrchu addasrwydd y myfyriwr i ymgymryd ag ymarfer yn ddiogel.

## 6. PROSESAU AR GYFER YMDRIN Â HONIADAU O GAMYMDDWYN MYFYRWYR

6.1 Cyfeiriwch at y Rheoliadau Camymddygiad ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr, sy'n darparu amlinelliadau o'r camau gweithdrefnol ar gyfer pryderon ynghylch camymddygiad myfyrwyr ac addasrwydd i ymarfer a dolenni i'r Gweithdrefnau perthnasol.